WELLBEING HUB @ ELY

SGRINIO AAA (IECHYD CYHOEDDUS CYMRU)

- Rhaglen sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen (AAA).

IECHYD PLANT ACÍWT - TÎM ANABLEDD DYSGU (SBU)

- Darparu gwasanaethau i blant ag anableddau ac anghenion cymhleth, y rhai ag anawsterau datblygiadol, anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a phlant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig fel y rhai mewn gofal.

IECHYD MEDDWL OEDOLION (CMHT)

- Mae timau iechyd meddwl cymunedol yn darparu triniaeth iechyd meddwl holistaidd i'r bobl hynny sy'n profi salwch meddwl difrifol a pharhaus e.e. sgitsoffrenia, iselder difrifol, anhwylder deubegynol, anhwylder personoliaeth.

GWASANAETHAU IECHYD PLANT CYMUNEDOL

- Mae gwasanaethau Iechyd Plant Cymunedol (CCH) yn hybu dechrau iach mewn bywyd ac yn cefnogi plant a'u teuluoedd. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd ac i ddiogelu iechyd a lles.

GWASANAETH DEINTYDDOL CYMUNEDOL (CDS)

- Yn cynnig gwasanaeth deintyddol atgyfeirio yn unig, a dod â gofal deintyddol i bobl na allant gael eu trin mewn practis deintyddol cyffredinol; fel arfer mae gan ein cleifion anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl neu orbryder difrifol.

YMATALIAETH (GAN GYNNWYS ENWRESIS)

- Cynnig cymorth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc i allu rheoli gweithrediad y bledren a'r coluddyn yn llawn.

SGRINIO LLYGAID DIABETIG CYMRU (DESW)

- Mae'r gwasanaeth yn cynnig ei wasanaeth sgrinio mewn modd amserol ac mor agos at gartref person ag sy'n ymarferol i fodloni ein safonau gwasanaeth. Mae DESW hefyd yn edrych ar wahanol fodelau darparu gwasanaeth sy'n briodol ar gyfer poblogaeth Cymru.

DEIETEG

- Gwasanaeth Maeth a Deieteg Cymunedol i gyfrannu at wella lles iechyd trigolion Dwyrain y Fro trwy leihau afiechyd cynamserol a lleihau effeithiau afiechyd ac anabledd.

GWASANAETH HYFYWEDD MEINWE

- Mae'r gwasanaeth yn darparu dull cynhwysfawr o asesu, trin a rheoli materion gofal clwyfau.

GRWPIAU CYMUNEDOL (MAES GWYBODAETH A CHYNGOR)

- Lle yn yr ardal gwybodaeth a chyngor i'r grwpiau cymunedol hyn roi cyhoeddusrwydd i'w cyfarfodydd a/neu ddarparu taflenni gwybodaeth - Ovarian Cancer Action; Gofal ac Atgyweirio; Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro; Recovery Cymru - elusen camddefnyddio sylweddau; Age Connects; Gwasanaeth torri ewinedd a chlinig misol.

TÎM NYRSYS ARDAL (DN)

- Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal yn cynnig gwasanaeth gofal iechyd i bobl nad ydynt yn gallu ymweld â'r feddygfa ac sydd angen gofal nyrsio, cyngor a chefnogaeth oherwydd eu bod yn gaeth i'r tŷ yn barhaol neu dros dro.

CLINIG METHIANT Y GALON - (CLINIGAU CARDIOLEG)

- Methiant y Galon yn y gymuned – clinigau cardioleg un stop gyda nyrs arbenigol Methiant y Galon yn cynnig gwasanaeth titradu cyffuriau ac adsefydlu cardiaidd.

CLINIGAU HV / CLINIG BABANOD / NYRSIO YSGOL

- Tîm o nyrsys arbenigol yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol ar sawl agwedd ar ddatblygiad plant yn ogystal ag iechyd teulu.

GWYBODAETH/CYNGOR/CYFEIRIO

- I gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau iechyd e.e. mynediad i DEWIS.
- Mae ein Canolfannau Gwybodaeth a Chymorth gan bartneriaid trydydd sector, e.e. mae Cyngor ar Bopeth yn darparu gwasanaeth lloeren, cyngor ar fudd-daliadau Tenovus ac ati, gyda mynediad at wefannau neu daflenni i gael rhagor o wybodaeth.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

GWEITHGAREDD / ARBENIGEDD

IRIS (ADNABOD AC ATGYFEIRIO I WELLA DIOGELWCH) O FEWN GOFAL IECHYD SYLFAENOL

- Hyfforddiant manwl i adnabod cleifion Cam-drin Domestig ar gyfer Meddygon Teulu a staff clinigol, codi ymwybyddiaeth staff anghlinigol sy'n gweithio yn y practis i ddod yn Bractis Cydnabyddedig sy'n Ymwybodol o Gam-drin Domestig.

BYDWREIGIAETH

- Tîm bydwragedd yn cefnogi menywod drwy gydol eu beichiogrwydd h.y. Apwyntiadau Cyn Geni; Gwiriadau Cyn Geni; Clinig ôl-enedigol.

GWASANAETHAU MSK/CPN - CYNALIADWYEDD GMS

- Gwasanaethau clwstwr o Ffisiotherapyddion a Nyrsys Fferyllwyr Cymunedol gyda llwybrau mynediad atgyfeirio amgen.

PODIATREG

- Rôl y gwasanaeth Podiatreg yw cynnal a gwella hyfywedd meinwe a swyddogaeth loco-modur, lleddfu poen a lleihau effaith anabledd, cynyddu a chynnal symudedd ac annibyniaeth gan hyrwyddo iechyd a lles ar gyfer ystod eang o gleifion.

GWASANAETH CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL (PMHSS)

- Darparu asesiad ac ymyriadau amserol ar gyfer y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, sefydlog, difrifol a pharhaus yn unol â Matrics Cymru.
- Creu gweithlu sy'n meddwl yn fwy seicolegol, mewn gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ond hefyd mewn ymarfer cyffredinol.

CLINIGAU IECHYD RHYWIOL (DOSH)

- Mae'r Adran Iechyd Rhywiol (DOSH) yn darparu gwasanaeth iechyd rhywiol cynhwysfawr sy'n cynnwys gwasanaeth sgrinio ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a gwasanaeth atal cenhedlu.

CLINIGAU IECHYD RHYWIOL

Mae'r clinigau cymunedol yn darparu:

- Dulliau atal cenhedlu brys gan gynnwys darparu coiliau brys ad hoc;
- Atal cenhedlu gan gynnwys LARC;
- Clinigau pwrpasol ar gyfer pobl ifanc, menywod digartref a gweithwyr rhyw masnachol;
- Gwasanaethau trydyddol arbenigol fel cwnsela seicorywiol ac atal cenhedlu i fenywod â chyflyrau meddygol trwy asesiad ac atgyfeiriad;
- Mae Iechyd y Cyhoedd yn gweithio trwy ddarparu Hysbysiad Partner yn ogystal ag addysgu/hyfforddiant;
- Gwaith amlasiantaethol drwy gydweithredu â gwasanaethau trydydd sector a gwasanaethau eraill y GIG (SHOT, Dechrau'n Deg, Gingerbread, Rainbow Bridge, THT ac ati);
- Profion beichiogrwydd ac atgyfeirio pellach ar gyfer gwasanaethau erthyliad neu gynenedigol;
- Mynediad galw heibio i wasanaethau a ddarperir dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol mewn safleoedd allweddol/ar sail cylchdro;
- Cydweithio agos gyda'r tîm Diogelu a'r gwasanaethau cymdeithasol;
- Mynediad hawdd ar gyfer triniaeth dafadennau;
- Profi a thrin cleifion symptomatig ac asymptomatig;
- Sgrinio ar gyfer cleifion risg uchel.

CLINIG DIM SMYGU CYMRU

- Darparu ymyrraeth rhoi'r gorau i smygu mewn grŵp ac 1-1 i ysmygwyr ledled Caerdydd yn wythnosol.

CEGIN ADDYSGU

- Opsiwn i'r grwpiau cymunedol ddefnyddio cegin y caffi y tu allan i oriau i ddarparu hyfforddiant arlwyo/byw'n iach a mathau eraill o hyfforddiant ar wahanol lefelau.

YSTAFELLOEDD GRŴP/CYMUNEDOL/GWYBODAETH A CHYNGOR:-

Podiatreg, Deieteg, Grwpiau cymdeithasol/gweithgaredd trydydd sector, Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol, Atal achosion o gwympo

- Ystafelloedd addysg grŵp y gellir eu harchebu gan wasanaethau ar gyfer clinigau cleifion allanol i grwpiau o gleifion (a ategir yn aml gan ddefnyddio ystafelloedd cyfweld neu ymgynghori y gellir eu harchebu e.e. clinigau babanod).
- Hefyd, cyfle i grwpiau cymunedol ddefnyddio'r ystafelloedd addysg cymunedol/grŵp y gellir eu harchebu ar gyfer dosbarthiadau, sgyrsiau, cyfarfodydd, gweithgareddau cymdeithasol, ac ati.